Pwysau Iach: Cymru Iach

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Llwybr Meddyginiaeth Rheoli Pwysau:

## Atodiad i Lwybr Rheoli Pwysau Cymru Gyfan

**Awduron:**

Rachel Cooke, Prif Ymarferydd Iechyd y Cyhoedd, Iechyd Cyhoeddus Cymru.
Ilona Johnson, Ymgynghorydd Iechyd y Cyhoedd, Iechyd Cyhoeddus Cymru.
Julie Bishop, Cyfarwyddwr Gwella Iechyd, Iechyd Cyhoeddus Cymru.

**Diben a Chrynodeb o'r Ddogfen:**

Dyma atodiad i'r Llwybr Meddyginiaeth Rheoli Pwysau ar gyfer Llwybr Rheoli Pwysau Cymru Gyfan.

OGL © Hawlfraint y Goron 2024, Llywodraeth Cymru, WG49672, ISBN 978-1-83577-837-1
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

**Cydnabyddiaethau**

Mae’r ddogfen hon wedi tynnu ar arbenigedd a gwybodaeth nifer o weithwyr proffesiynol ledled Cymru. Hoffem ddiolch yn arbennig i’r rhai sydd wedi cymryd rhan yn y grwpiau datblygu llwybrau, a darparu adborth adeiladol a chyngor drwy gydol y broses. Nid mewn unrhyw drefn benodol:

Dr Alice Purchades
Alison Merry
Dr Amrita Jesurasa
Andrew Evans
Ann Vincent
Dr Anna Kuczynska
Arif Mahmood
Ceriann Tunnah
Dr Helen Cordy
Dr Jennie Edwards
Jennifer Devin
Dr Jo Sartori
Dr Meryl James
Dr Patrick Wainwright
Rachael Smart
Richard Lewis
Dr Syeda Fatima
Sioned Quirke
Dr Stuart Hackwell
Dr Sue Kenneally
Yr Athro Tracy Daszkiewicz

# Cynnwys


**1. Meddyginiaeth Colli Pwysau** 5

**2. Atgyfeiriadau ar gyfer Meddyginiaeth Rheoli Pwysau** 6

2.1 Hunan-atgyfeiriadau

2.2 Atgyfeiriadau gweithwyr gofal iechyd proffesiynol

**3. Asesiad Rheoli Pwysau** 7

3.1 Byrddau Iechyd

3.1.1 Ymyrraeth meddyginiaeth rheoli pwysau

3.1.2 Adolygu a monitro

3.2 Meddyginiaeth rheoli pwysau – cynllunio ar gyfer pan ddaw rhagnodi i ben

3.2.1 Cynnal Pwysau ar ôl Meddyginiaeth

3.2.2 Rhagnodi pellach

**4. Ystyriaethau Cyflenwi Meddyginiaeth** 10

4.1 Adweithiau niweidiol i gyffuriau

**Adnoddau** 11

# 1. Meddyginiaeth Colli Pwysau

Mae'r opsiynau meddyginiaeth rheoli pwysau a gymeradwywyd ar gyfer rheoli gordewdra a bod dros bwysau wedi cynyddu dros amser ochr yn ochr ag argaeledd a galw cynyddol.

Mae Llwybr Rheoli Pwysau Cymru Gyfan (AWWMP)[1] yn nodi safonau gwasanaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer gwasanaethau rheoli pwysau yng Nghymru. Gellir defnyddio meddyginiaeth rheoli pwysau ar gyfer rhai cleifion fel ychwanegiad i ymyriadau rheoli pwysau ymddygiadol sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac sydd wedi'u sicrhau o ran ansawdd. Mae'r atodiad hwn i'r llwybr wedi'i gynhyrchu mewn ymateb i gymeradwyaeth NICE o feddyginiaethau newydd ar gyfer rheoli pwysau. Dylid darllen y ddogfen hon ar y cyd â dogfen Llwybr Rheoli Pwysau Cymru Gyfan a chanllawiau perthnasol NICE ar gyfer meddyginiaeth[2,3].

Dim ond meddyginiaethau trwyddedig y dylid eu defnyddio fel rhan o'r llwybr rheoli pwysau. Mae sawl cymysgedd o semaglutide a liraglutide ar gael, ond Wegovy a Saxenda yn y drefn honno yw'r unig gymysgeddau semaglutide a liraglutide sydd wedi'u trwyddedu yn y DU ar hyn o bryd fel atodiad i ddeiet â llai o galorïau a mwy o weithgarwch corfforol ar gyfer rheoli pwysau. Nid yw cymysgeddau eraill o semaglutide (e.e. Ozempic) na liraglutide (e.e. Victoza) wedi'u trwyddedu ar hyn o bryd ar gyfer rheoli pwysau ac ni ddylid eu defnyddio'n rheolaidd at y diben hwn.

[1] Llwybr Rheoli Pwysau Oedolion 2021
[2] Liraglutide for managing overweight and obesity.
Technology appraisal guidance [TA664] Cyhoeddwyd: 09 Rhagfyr 2020 NICE Guidance: Liraglutide for managing overweight and obesity
[3] Semaglutide for managing overweight and obesity.
Technology appraisal guidance [TA875] Cyhoeddwyd: 08 Mawrth 2023, wedi'u diweddaru: 04 Medi 2023 Nice Guidance: Semaglutide for managing overweight and obesity

# 2. Atgyfeiriadau ar gyfer Meddyginiaeth Rheoli Pwysau

Cydnabyddir bod y cyhoedd yn ymwybodol o'r cyffuriau hyn, ac y gallai sylw yn y cyfryngau fod wedi creu disgwyliadau afrealistig o'u defnydd ac efallai nad ydynt yn portreadu'r sgil-effeithiau posibl yn gywir. Mae'n debygol y bydd clinigwyr yn cael mwy o geisiadau am feddyginiaeth colli pwysau gan gleifion.

Dylai'r rhai sy'n cynnal asesiadau ac sy'n cael eu hatgyfeirio at wasanaethau rheoli pwysau ddilyn Llwybr Rheoli Pwysau Cymru Gyfan. Dylai atgyfeiriadau fod ar gyfer gwasanaethau rheoli pwysau. Nid yw mynediad at feddyginiaeth, ar ei ben ei hun, yn sail ar gyfer atgyfeirio at y Gwasanaethau Rheoli Pwysau.

Dylid defnyddio meddyginiaeth yn unol â'r canllawiau, ar y cyd ag ymyriadau ymddygiadol, ac ni ddylid ei defnyddio fel yr ymyriad cyntaf.

Dylid dilyn canllawiau NICE wrth ystyried llwybrau meddyginiaeth rheoli pwysau[2,3]. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth yn unol â threfniadau masnachol a thrwyddedu.

### 2.1 Hunan-atgyfeiriadau

Dylai unigolion sy'n hunangyfeirio at wasanaethau rheoli pwysau gael eu hasesu yn dilyn yr asesiad cychwynnol a amlinellir yn y llwybr rheoli pwysau presennol (Adran 6 AWWMP[1]).

### 2.2 Atgyfeiriadau gweithwyr gofal iechyd proffesiynol

Dylai atgyfeiriadau proffesiynol ddilyn y llwybr rheoli pwysau presennol (Adran 6 AWWMP[1]). Dylai trafodaethau am feddyginiaeth rheoli pwysau reoli disgwyliadau o ran y llwybr meddyginiaeth rheoli pwysau, ymrwymiadau i newid ffordd o fyw, a gwrtharwyddion a sgîl-effeithiau.

Dylid ei gwneud yn glir i gleifion sy'n gwneud cais am feddyginiaeth rheoli pwysau bod unrhyw atgyfeiriad at ddiben asesiad llwybr rheoli pwysau ac mai dim ond o fewn gwasanaeth arbenigol y bydd meddyginiaeth rheoli pwysau yn cael ei rhagnodi, pan fo rheswm clinigol dros wneud hynny a dim ond ar y cyd ag ymyriad ymddygiadol (ffordd o fyw) a fydd yn cynnwys deiet â llai o galorïau a mwy o weithgarwch corfforol. Os caiff ei rhagnodi, caiff y feddyginiaeth ei hadolygu a gellir ei hatal fel y bo'n briodol. Dylai atgyfeiriadau ddogfennu'r wybodaeth a gyfathrebir i gleifion.

[1] Llwybr Rheoli Pwysau Oedolion 2021
[2] Liraglutide for managing overweight and obesity.
Technology appraisal guidance [TA664] Cyhoeddwyd: 09 Rhagfyr 2020 NICE Guidance: Liraglutide for managing overweight and obesity
[3] Semaglutide for managing overweight and obesity.
Technology appraisal guidance [TA875] Cyhoeddwyd: 08 Mawrth 2023, wedi'u diweddaru: 04 Medi 2023 Nice Guidance: Semaglutide for managing overweight and obesity

# 3. Asesiad Rheoli Pwysau

Yn unol â chanllawiau NICE, rhaid cael tîm amlddisgyblaethol arbenigol ar gyfer pob gwasanaeth meddyginiaeth rheoli pwysau.

Yn dilyn asesiad cychwynnol yn unol â Llwybr Rheoli Pwysau Cymru Gyfan lle asesir bod angen gwasanaethau lefel tri ar unigolion, cyfrifoldeb y tîm amlddisgyblaethol lefel 3 fydd asesu addasrwydd meddyginiaeth rheoli pwysau. Bydd hyn yn cynnwys y meddyginiaethau hynny lle mae canllawiau NICE yn gofyn am wasanaethau Haen 3 / Lefel 3 neu uwch (e.e. liraglutide). Lle mae NICE yn datgan nad yw meddyginiaeth rheoli pwysau wedi'i chyfyngu i Haenau 3 a 4/ Lefel 3 a 4 o'r llwybr (e.e. semaglutide), gall byrddau iechyd ddewis sefydlu llwybr ar gyfer asesiad tîm amlddisgyblaethol ar gyfer y rhai sy'n defnyddio gwasanaethau lefel 2 sydd wedi cael eu nodi fel derbynwyr posibl o feddyginiaeth rheoli pwysau.

Dylai asesiadau ar gyfer meddyginiaeth rheoli pwysau gael eu cynnal gan aelod o'r tîm aml-ddisgyblaethol gyda phroses gymeradwyo sy'n cynnwys holl aelodau'r tîm amlddisgyblaethol craidd ar gyfer meddyginiaeth rheoli pwysau ac aelodau ehangach o'r tîm amlddisgyblaethol fel y bo'n briodol (Adran 6 AWWMP[1]).

Rhaid i aelodaeth graidd y tîm amlddisgyblaethol ar gyfer meddyginiaeth rheoli pwysau gynnwys:

- Deietegydd
- Seicolegydd clinigol neu gymhwysol
- Meddyg

[1] Llwybr Rheoli Pwysau Oedolion 2021

# 3. Asesiad Rheoli Pwysau

## 3.1 Byrddau Iechyd

Dylai Byrddau Iechyd sicrhau bod trefniadau priodol ar waith i gefnogi rhagnodi meddyginiaethau rheoli pwysau yn unol â chanllawiau NICE a Llwybr Rheoli Pwysau Cymru Gyfan.

Dylai hyn gynnwys systemau casglu gwybodaeth i gefnogi archwilio clinigol a gweithdrefnau adrodd trwy Set Ddata Sylfaenol Cymru Gyfan.

### 3.1.1 Ymyrraeth meddyginiaeth rheoli pwysau

Disgwylir y bydd cleifion yn cytuno ac yn ymgysylltu ag ymyriad ymddygiadol cyn ac ochr yn ochr ag unrhyw bresgripsiwn am feddyginiaeth am gyfnod llawn yr ymyriad a chynnal y pwysau.

Dylid sefydlu cydran ymddygiadol yr ymyriad cyn rhagnodi. Mae angen i fesurau ymddygiadol gynnwys deiet â llai o galorïau a mwy o weithgarwch corfforol. Mae angen i unigolion sy'n cael eu hystyried ar gyfer meddyginiaeth rheoli pwysau fod wedi'u cymell ac wedi ymrwymo i elfen ymyrraeth ymddygiadol y llwybr a dylent fod wedi ymgymryd ag o leiaf 12 wythnos mewn ymyriad gweithredol Lefel 2 neu uwch cyn ystyried rhagnodi.

Dylai rhagnodi ddilyn canllawiau NICE [2,3]. Pan fydd y rhagnodi'n dechrau, dylid amlinellu'n glir y gellir rhoi'r gorau i feddyginiaeth ar unrhyw adeg e.e. os yw llai na 5% o'r pwysau cychwynnol wedi'i golli ar ôl 6 mis o driniaeth, neu os oes ymgysylltiad gwael â naill ai elfen ymddygiadol y llwybr meddyginiaeth neu fethiant i ddod i adolygiad.

### 3.1.2 Adolygu a monitro

Dylid cynnal adolygiadau cychwynnol ar ôl 3 a 6 mis i gadarnhau'r cynnydd a bod rhagnodi parhaus yn briodol. Dylai adolygiadau ddilyn argymhellion NICE ynghylch pryd i ystyried rhoi'r gorau i feddyginiaeth e.e. os nad yw targedau colli pwysau sy'n benodol i feddyginiaeth wedi'u cyrraedd o fewn amserlen benodol. Dylai aelod arbenigol o'r tîm amlddisgyblaethol gynnal yr adolygiad cychwynnol ar ôl 3 mis, a phan ddaw'r rhagnodi i ben.

Dylid adolygu a mesur pwysau ar ôl 6, 12, 18 a 24 mis yn unol â'r set ddata sylfaenol gydag aelod sydd wedi'i hyfforddi'n briodol o dîm amlddisgyblaethol y gwasanaeth rheoli pwysau arbenigol. Dylai aelod o'r tîm wirio cynnydd rhwng yr adolygiadau ar ôl 3 mis i gadarnhau bod rhagnodi parhaus yn briodol.

[2]Liraglutide for managing overweight and obesity.
Technology appraisal guidance [TA664] Cyhoeddwyd: 09 Rhagfyr 2020 NICE Guidance: Liraglutide for managing overweight and obesity
[3]Semaglutide for managing overweight and obesity.
Technology appraisal guidance [TA875] Cyhoeddwyd: 08 Mawrth 2023, wedi'u diweddaru: 04 Medi 2023 Nice Guidance: Semaglutide for managing overweight and obesity

# 3. Asesiad Rheoli Pwysau

## 3.2 Meddyginiaeth rheoli pwysau – cynllunio ar gyfer pan ddaw rhagnodi i ben

Mae angen cymorth cynllunio a chynnal pwysau gweithredol ar gyfer pan fydd rhagnodi meddyginiaeth yn cael ei atal, er mwyn cefnogi unigolion a sicrhau'r budd mwyaf posibl o'r feddyginiaeth. Dylid diweddaru cynlluniau rheoli pwysau ym mhob adolygiad chwarterol.

Dylid cytuno ar gynllun sy'n crynhoi'r canlyniadau a gyflawnwyd a'r camau nesaf a chynlluniau cynnal pwysau am gyfnod o 24 mis ar ôl yr ymyriad yn dilyn argymhellion llwybr (Adran 6 AWWMP[1]).

Dylid casglu data yn unol â'r set ddata sylfaenol..

### 3.2.1 Cynnal Pwysau ar ôl Meddyginiaeth

Dylai ymyriad gweithredol y feddyginiaeth rheoli pwysau (pecyn gofal ymddygiadol a meddyginiaeth) gael ei ddilyn gan argymhellion llwybr cyfredol ar gyfer cynnal pwysau (Adran 6 AWWMP[1]). Dylid rhoi cymorth dilynol yn ystod cyfnod cynnal pwysau y cytunwyd arno. Dylid mesur pwysau yn ystod yr adolygiad 6 mis ar ôl ymyrraeth weithredol yn unol â'r set ddata sylfaenol. Dylai cymorth dilynol gynnwys diweddariadau cynnydd tuag at y nodau llesiant a nodwyd. Dylai cynlluniau rhyddhau ar ddiwedd y cam parhau/cynnal colli pwysau amlygu apwyntiadau dilynol gofal sylfaenol am ddwy flynedd (Adran 6 AWWMP[1]).

### 3.2.2 Rhagnodi pellach

Rhaid i ragnodi ddilyn argymhellion NICE o ran hyd yr amser ar gyfer triniaeth â meddyginiaeth. Dylid asesu ceisiadau am asesiad ychwanegol ar gyfer rhagnodi parhaus ar ôl cyfnod llwyddiannus cychwynnol ar y feddyginiaeth e.e. hyd at uchafswm rhagnodi o 24 mis neu addasrwydd ar gyfer asesiadau Lefel 4 mewn apwyntiadau cynnal dilynol.

Rhaid atgyfeirio ceisiadau am asesiad ar ôl treial aflwyddiannus cychwynnol o feddyginiaeth rheoli pwysau am adolygiad tîm amlddisgyblaethol arbenigol Lefel 3 llawn a fydd yn cynnwys adolygiad o heriau blaenorol ochr yn ochr â'r darlun presennol ar gyfer yr unigolyn.

[1]Llwybr Rheoli Pwysau Oedolion 2021

# 4.Ystyriaethau Cyflenwi Meddyginiaeth

Dylai rhagnodi ddilyn argymhellion NICE sy'n cynnwys cyfyngu'r defnydd i'r man lle mae'r cwmni'n ei ddarparu yn unol â'r trefniant masnachol rhwng y gwneuthurwr a GIG Cymru.

Dylid dilyn gweithdrefnau Cymru ar gyfer rhagnodi o fewn cytundebau mynediad masnachol lle nodir y rhain yn argymhellion NICE.

Oni bai bod trefniadau ar waith gyda'r gwneuthurwr sy'n cynnal pris y cytundeb mynediad masnachol ar gyfer byrddau iechyd, ni ddylid defnyddio presgripsiynau gofal sylfaenol (WP10s) na phresgripsiynau ysbyty ar gyfer dosbarthu yn y gymuned (WP10HPs) ar gyfer cyflenwadau o semaglutide (Wegovy). Ar adeg ysgrifennu hwn, dim ond trwy adrannau fferylliaeth ysbytai y mae cyflenwadau o semaglutide y GIG (Wegovy) ar gael.

Dylai gwasanaethau rheoli pwysau ymgysylltu â'u hadran fferylliaeth ysbyty yn gynnar er mwyn pennu'r trefniadau priodol ar gyfer cyflenwi yn ardal eu bwrdd iechyd.

Pan fo cyflenwadau a/neu gapasiti cyfyngedig, dylid blaenoriaethu rhagnodi ar sail risg a buddion clinigol.

## 4.1 Adweithiau niweidiol i gyffuriau

Rhaid cofnodi adweithiau niweidiol i feddyginiaeth yn gyson a dylai data dienw fod ar gael i'w harchwilio'n genedlaethol.

Mae Semaglutide (Wegovy) yn feddyginiaeth newydd sydd wedi'i dynodi'n feddyginiaeth driongl ddu (▼) gan yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA).  Mae hyn yn golygu y dylech roi gwybod am bob adwaith niweidiol i gyffuriau (ADRs) a amheuir ar gyfer semaglutide (Wegovy) i gynllun cerdyn melyn yr MHRA[4]. Mae Liraglutide (Saxenda) yn feddyginiaeth sefydledig a dim ond ADRs difrifol sydd angen eu hadrodd.

Gellir defnyddio'r ffurflen ar-lein ar wefan cynllun cerdyn melyn 4 yr MHRA ar gyfer adrodd. Fel arall, gellir lawrlwytho'r Ap Cerdyn Melyn o'r Apple App Store[5] neu Google Play Store[6] a'i ddefnyddio ar gyfer adrodd.

[4] MRHA Adverse reactions to drugs
[5] Apple App Store: Dolen ap Cerdyn Melyn
[6] Google Play Store: Dolen ap Cerdyn Melyn

# Adnoddau

[1]Llwybr Rheoli Pwysau Oedolion 2021
[2]Liraglutide for managing overweight and obesity.
Technology appraisal guidance [TA664] Cyhoeddwyd: 09 Rhagfyr 2020 NICE Guidance: Liraglutide for managing overweight and obesity
[3]Semaglutide for managing overweight and obesity.
Technology appraisal guidance [TA875] Cyhoeddwyd: 08 Mawrth 2023, wedi'u diweddaru: 04 Medi 2023 Nice Guidance: Semaglutide for managing overweight and obesity
[4]MRHA Adverse reactions to drugs
[5]Apple App Store: Dolen ap Cerdyn Melyn
[6]Google Play Store: Dolen ap Cerdyn Melyn